Cenn@d

EBRILL 13 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 59

Credu yng Ngrym yr Atgyfodiad

Yn awr, os pregethir Crist ei fod wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, sut y mae rhai yn eich plith yn dweud nad oes atgyfodiad y meirw? (1 Corinthiaid 15:12 BCND)

Os ydyn ni'n cyhoeddi fod y Meseia wedi'i godi yn ôl yn fyw, sut mae rhai pobl yn gallu dweud fod y rhai sydd wedi marw ddim yn mynd i atgyfodi? (1 Corinthiaid 15:12 Beibl.net)

Dyma adnod o bennod fawr Paul ar yr atgyfodiad. Dwi am i ni edrych ar dri phwynt: 1. Grym yr atgyfodiad; 2. Amau'r atgyfodiad; 3. Cadarnhad o'r atgyfodiad.

1. Grym yr atgyfodiad

Cwestiwn y gwragedd, Mair Magdalen a Mair mam Iago, yn ôl Marc, oedd: 'Pwy a dreigla'r maen i ffwrdd oddi wrth ddrws y bedd i ni?' Neu, pwy sy'n mynd i rolio'r garreg oddi ar y bedd i ni gael mynd i mewn i eneinio'r corff?

Mae'r Efengylau'n amrywio ynglŷn â phwy sy'n cael eu henwi, ond yn hollol gytûn mai'r gwragedd oedd wrth y bedd gyntaf. Tridiau ynghynt, mae'r gwragedd wedi cael golwg ar y creulondeb a wynebodd Iesu, yr holl boen a ddioddefodd, a'r holl wawdio a gwatwar a wynebodd. Eneinio'r corff oedd y weithred a'r cyfle olaf i ddangos parch tuag at un a fu farw mor ddianrhydedd. Eu dyletswydd hwy fel y teulu a'r ffrindiau agosaf oedd dod yn ystod y dyddiau cyntaf i eneinio'r corff â pheraroglau, a hynny'n syml iawn i helpu gyda drewdod y corff yn pydru. Roedd hi'n rhy hwyr ar y nos Wener i wneud hynny, ac yna roedd hi'n Sabath ac ni ellid gwneud y gwaith bryd hynny. Felly, bore'r trydydd dydd, ar doriad gwawr oedd y cyfle cyntaf.

Cwestiwn ymarferol y mae'r gwragedd yn ei ofyn, yn ôl Marc. Fe wyddent nad oedd posib iddyn nhw symud y garreg eu hunain.

Yn syth wedi i Pedr adnabod Iesu fel yr un yr oedd Israel wedi bod yn edrych ymlaen i'w weld fel Eneiniog Duw, y Meseia, mae

Marc yn dweud hyn: 'Dechreuodd esbonio iddyn nhw fod rhaid iddo fe, Mab y Dyn, ddioddef yn ofnadwy. Byddai'r arweinwyr Iddewig, y prif offeiriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith yn ei wrthod. Byddai'n cael ei ladd, ond yna'n dod yn ôl yn fyw ddeuddydd wedyn.' (Marc 8:31)

Os felly, a bod y disgyblion, y gwragedd a holl ddilynwyr Iesu yn gwybod y byddai'n dod yn ôl yn fyw ar y trydydd dydd, pam fod y gwragedd yn gorfod poeni pwy oedd yn mynd i symud y garreg oddi wrth y bedd? Er eu bod yn gwybod ei fod am gyfodi, doedden nhw ddim yn gwybod chwaith! Doedden nhw ddim wedi profi hyn o'r blaen, ac felly ddim yn ei ddisgwyl. Mae'r awdur a'r diwinydd W. E. Sangster yn dweud: 'Ni threiglwyd y maen er mwyn i Iesu gael ei gyfodi, ond er mwyn i ni gael gweld bod y bedd yn wag'. Mae'r ffaith fod y gwragedd yn gofyn y cwestiwn yn Efengyl Marc yn dangos i ni eu bod un ai ddim yn credu fod Iesu am atgyfodi neu, yn fwy tebygol, fod eu galar a'u sioc wedi achosi iddynt anghofio am ei addewid, nid dim ond iddyn nhw, ond i'r byd i gyd.

Mae'r angel yn ymddangos yn y pedair efengyl ac yn pwysleisio tystiolaeth yr atgyfodiad: "Peidiwch dychryn," meddai wrthyn nhw. "Dych chi'n edrych am Iesu o Nasareth gafodd ei groeshoelio. Mae wedi dod yn ôl yn fyw! Dydy e ddim yma. Edrychwch, dyma lle cafodd ei gorff ei roi i orwedd. (Marc 16:6)

Do, mi fuodd Iesu farw ar y groes ar y dydd Gwener, ond rŵan, a hithau'n ddydd Sul, mae wedi dod yn ôl yn fyw. Tydy o ddim yn y bedd ddim mwy, mae'r bedd yn wag! Ond os oes rhywun yn dweud wrthych am 'beidio dychryn', rydych chi siŵr o ddychryn! Roedd y gwragedd yn crynu dan arswyd.

Rydym ni i gyd wedi wynebu ofnau dros y ddwy flynedd ddiwethaf yma, ac fel mamau a gwragedd, efallai, wedi cael mwy na'n siâr o boeni! Dwi'n gallu poeni am bopeth – y plant, y ci! Dwi'n poeni weithiau fy mod i'n poeni gormod! Mi fasen ni'n gallu treulio oriau, diwrnodau, yn meddwl am yr holl feini tramgwydd sydd yn ein bywydau ni. Ond trugaredd Duw tuag atom sy'n treiglo'r maen. Rydyn ni'n cael ein bendithio wrth dderbyn trugaredd yr Arglwydd ond hefyd pan fyddwn ni'n dangos trugaredd at eraill ac yn rhannu eu pryderon a'u poenau hwythau.

Yn ystod 2020–21, fe ges i gyfle i gyfarfod â'r Eglwys yn fyd-eang i raddau cymaint mwy nag o'r blaen, er na wnes i orfod teithio i'r un ohonynt. Wrth fod yn rhan o'r cynllun 'Just Scripture' gyda Chymorth Cristnogol, cefais astudio Gair Duw mewn cyd-destunau gwahanol a chlywed am feichiau cyd-Gristnogion yn Kenya, De Affrica ac India. Mae'r ymwneud â'r eglwys fyd-eang yn ei gwahanol ofidiau a pharthau amser wedi dangos i mi fod yr Arglwydd yn fyw, yn sefyll ynghanol ei bobl ac yn rhannu grym ei atgyfodiad gyda ni i gyd, lle bynnag yr ydym, beth bynnag fo'n hamgylchiadau a pha amser bynnag yw hi arnom ni: yn Singapore, Japan, Jamaica, Taiwan, India. Cyfarfod â Lal Ramthanga, Ysgrifennydd Cyffredinol

(parhad ar y dudalen nesaf)

gobaith.cymru Tudalen 3 | Tudalen y Plant Tudalen 4 | O'r byd a'r betws Tudalen 5

Credu yng Ngrym yr Atgyfodiad

(parhad o dudalen 1)

Eglwys Bresbyteraidd Myanmar, a sgwrsio dros WhatsApp efo fo, lle mae'r fyddin yno ar y stryd y tu allan yn bygwth. Wrth glywed am ffoaduriaid yn cyrraedd Mizoram, y dalaith agosaf yn yr India, ac yn cael eu croesawu efo breichiau agored gan y Cristnogion yno, rydym yn cael rhannu yng ngrym yr atgyfodiad sydd yn drech na dim all ddod i'n herbyn.

2. Amau'r atgyfodiad

Erbyn hyn mae hi'n nos Sul, ac mae Iesu wedi ymddangos i'w un disgybl ar ddeg wrth bryd bwyd. Mae o'n edliw iddynt eu hanghrediniaeth a'u styfnigrwydd, am iddyn nhw beidio dal gafael yng ngobaith yr atgyfodiad. Mae cofnod Luc yn hyfryd ac yn fanwl iawn. Yno, mae'r Iesu'n dangos ei ddwylo a'i draed ac yn dweud wrthynt: 'myfi yw, myfi fy hun' (24:39). Dros yr wythnosau nesaf mae Iesu'n ymddangos i tua phum cant o bobl, yn ôl Paul yn 1 Corinthiaid 15.

Yn strategol, doedd 'na ddim cam gwaeth i'w gymryd na dewis gwragedd fel y tystion cyntaf i'r atgyfodiad. Yn y llysoedd Iddewig mi fasen nhw wedi cael eu gwahardd yn llwyr rhag rhoi eu tystiolaeth. Mae yna sawl tystiolaeth amrywiol i'w gweld, a gonestrwydd yr arswyd ac ofn yn eu calonnau. Ond mae'r ofn yn cael ei chwalu a'i leddfu o fod yn ei gwmni. Pan fydda innau'n hel meddyliau ac yn troi a throsi yn y nos, mi fydda i'n troi at Huw y gŵr ac yn dweud fy mod i'n poeni, ac mae cael ei ymateb tyner yn lleddfu'r ofn.

Mae hanes yr atgyfodiad yn Efengyl Ioan yn sôn am Thomas:

"Nes i mi gael gweld ôl yr hoelion yn ei arddyrnau, a rhoi fy mys yn y briwiau hynny a rhoi fy llaw i mewn yn ei ochr, wna i byth gredu'r peth!"

Wythnos yn ddiweddarach roedd y disgyblion yn y tŷ eto, a'r tro hwn roedd Tomos yno gyda nhw. Er bod y drysau wedi'u cloi, daeth Iesu i mewn a sefyll yn y canol a dweud, "Shalôm!" Trodd at Tomos a dweud, "Edrych ar fy arddyrnau; rho dy fys i mewn ynddyn nhw. Estyn dy law i'w rhoi yn fy ochr i. Stopia amau! Creda!" A dyma Tomos yn dweud, "Fy Arglwydd a'm Duw!" (Ioan 20:25–8)

Profi cwmni Iesu sy'n lleddfu ein hofnau a'n hanghrediniaeth ninnau hefyd. Ar fore'r Pasg, ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth, mae William Sangster, ac yntau'n wynebu gwaeledd hir a chreulon, yn llwyddo i ysgrifennu: "Mor ofnadwy ydy deffro ar y Pasg a bod heb lais i weiddi, 'Mae wedi codi!' Ond gwaeth o lawer fyddai cael llais a ddim eisiau gweiddi."

3. Cadarnhad o'r atgyfodiad

Fe gredaf fod y cadarnhad o'r atgyfodiad yn ei gomisiwn mawr: "Ewch i gyhoeddi'r newyddion da i bawb drwy'r byd i gyd." Rhannwch am y gobaith; rhannwch y cysur sydd i'w gael o dderbyn fod Iesu wedi atgyfodi, wedi gwneud pob dim yn iawn ac yn newydd. Rydyn ni'n cael ein comisiynu yn natur wasanaethgar yr Arglwydd, yr un natur ag y clywsom sôn amdani ddeuddydd ynghynt ac y mae Eseia yn sôn amdani ym mhenod 53:

> Ar ôl y dioddef i gyd bydd yn gweld beth wnaeth,
> a bydd yn gwbl fodlon.
> Bydd fy ngwas cyfiawn yn gwneud llawer o bobl yn gyfiawn,
> ac yn cario baich eu beiau ar ei ysgwyddau.

Roedd y sioc oedd i ddilyn wedi'r atgyfodiad yn cychwyn o Jerwsalem ac yn lledu fel feirws yn cael ei basio o berson i berson. Hanner can niwrnod yn ddiweddarach yn Jerwsalem y mae 3,000 o bobl o bob cenedl dan y nef yn cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân ac mae'r Eglwys yn cael ei geni.

Mae nerth yr atgyfodiad yn eiddo i ni, ac fel eglwys Iesu Grist yma yng Nghymru a thros y byd i gyd, rydyn ni yma o hyd; rydyn ni'n tyfu, rydyn ni'n siarad ac yn gweithredu yn erbyn anghyfiawnder. Rydyn ni'n cynnig gobaith i'r diobaith ac rydyn ni'n cynnig cyflwyno cyfaill na fu ei debyg, un sy'n gyfaill i gasglwyr trethi, puteiniaid a phechaduriaid – un sy'n gas ganddo ein hagwedd feirniadol ni at eraill, a'r un sy'n ein caru yn union fel rydym ni.

Mae adnod olaf Efengyl Marc yn dweud bod y comisiwn mawr yn cadarnhau'r atgyfodiad: 'O hynny ymlaen aeth y disgyblion allan i bregethu ym mhobman. Roedd yr Arglwydd yn gweithio gyda nhw, ac yn cadarnhau fod y neges yn wir drwy'r arwyddion gwyrthiol oedd yn digwydd yr un pryd.' Roedd yr Arglwydd Iesu yn mynd gyda nhw i gadarnhau bod ei neges ef ei hun trwyddyn nhw yn wir. Mae'n gwneud y cyfan yn sefydlog ac yn gadarn. Ac os mai gwaith y disgyblion cyntaf a'r Eglwys Fore oedd cadarnhau'r Atgyfodiad, dyna ydy'n gwaith ninnau heddiw.

Felly, be' sydd rhaid i fi ei wneud? Derbyn fod Iesu yn ein gwahodd ninnau hefyd i gredu ynddo, ac i rannu'r newyddion da. Ac wrth eu rhannu, maen nhw'n cael eu cadarnhau: 'Ond, y gwir ydy bod y Meseia wedi'i godi yn ôl yn fyw! Mae e fel y ffrwyth cyntaf i ymddangos adeg y cynhaeaf – fe ydy'r cyntaf o lawer sy'n mynd i gael eu codi.' (1 Corinthiaid 15:20) Mae'r maen wedi ei dreiglo; mae hi'n Basg: 'Oherwydd y mae Crist, ein Pasg ni, wedi ei aberthu.' (1 Corinthiaid 5:7)

Dwedodd Iesu wrth Martha, chwaer Lasarus, "Fi ydy'r atgyfodiad a'r bywyd. Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn dod yn fyw, er iddyn nhw farw; a bydd y rhai sy'n fyw ac yn credu ynof fi ddim yn marw go iawn. Wyt ti'n credu hyn?" (Ioan 11:25)

Dwi'n gweddïo y byddwch yn rhyfeddu at rym yr atgyfodiad eleni fel y rhyfeddodd Mair Magdalen, Mair mam Iago, y gwragedd, y disgyblion a'r pum cant a welodd Iesu yn dilyn yr atgyfodiad. Dw i'n gweddïo hefyd fod y rhai ohonoch sydd wedi profi unigedd ac amheuaeth yn gallu derbyn cadarnhad yr atgyfodiad fel y gwnaeth Thomas, ac yn gallu dweud yn hyderus: 'Ti yw fy Arglwydd a'm Duw'.

Parch. Nan Wyn Powell-Davies
(Addasiad o anerchiad a draddodwyd yng Ngŵyl Rithiol Llanw '21 o Gapel Caersalem, Caernarfon)

Llanw 22 – Aberystwyth 18–19 Ebrill

Mae manylion llawn Gŵyl Llanw 2022 wedi cael eu cyhoeddi ar y wefan. Ewch yno i weld y manylion.
Tocynnau Llanw 2022 (EventBrite)
Bydd croeso mawr yn disgwyl bawb o bob oed yn Llanw, Aberystwyth '22!

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol ebostiwch Angharad Clwyd ar ymholiadau@llanw.org

gobaith.cymru

Cyngor Ysgolion Sul

Emynau a chaneuon mawl i'w lawrlwytho am ddim

Tybed a fyddwch chi weithiau'n chwilio am eiriau emynau Cymraeg i'w hargraffu neu eu taflunio ar gyfer eu defnyddio mewn addoliad? Neu tybed hoffech chi wybod a oes cyfieithiad Cymraeg ar gael o emyn Saesneg? Efallai y gall gwefan gobaith.cymru eich helpu.

Gwefan Gymraeg yw gobaith.cymru; fe'i sefydlwyd gan y mudiad Gobaith i Gymru a fu hefyd yn gyfrifol am y gwaith aruthrol o ddarparu beibl.net. Pan ddaeth Gobaith i Gymru i ben yn 2019, trosglwyddwyd y gwaith o redeg y wefan i Gyngor yr Ysgolion Sul a gofynnwyd i mi wneud y gwaith gweinyddol. Mae gobaith.cymru yn gasgliad o dros 1,400 o eiriau Cymraeg emynau a chaneuon Cristnogol cyfoes ynghyd â ffeiliau PowerPoint i'w lawrlwytho.

Mae'r emynau'n amrywio o rai gwreiddiol, traddodiadol Cymraeg a chyfieithiadau o emynau traddodiadol Saesneg i ganeuon mawl cyfoes gwreiddiol Cymraeg a chyfieithiadau o rai cyfoes Saesneg ac ieithoedd eraill. Er bod nifer o'r emynau traddodiadol eisoes wedi eu cyhoeddi mewn llyfrau, dyma'r casgliad mwyaf sydd i'w gael yn y Gymraeg a'r man mwyaf hygyrch ar gyfer lawrlwytho geiriau emynau, gan gynnwys holl emynau *Caneuon Ffydd*. Ymhlith yr emynau traddodiadol ceir cyfieithiadau Cymraeg llai hysbys o emynau fel 'Amazing grace' a 'My hope is built on nothing less'. Mae'r cyfieithiadau o'r emynau mwy diweddar yn cynnwys rhai mewn arddull draddodiadol i'w canu ar emyn-dôn, megis 'Brother, sister, let me serve you', yn ogystal â rhai mewn arddull gwbl gyfoes, yn eu plith nifer a gyfansoddwyd yn ystod y pandemig. Ceir rhestr o'r diweddaraf i gael eu huwchlwytho ar dudalen hafan gobaith.cymru.

Mae modd lawrlwytho'r holl emynau o'r wefan am ddim, ond mae angen caniatâd ar eglwysi i daflunio neu argraffu pob emyn sydd o dan hawlfraint. Dylid cofrestru gyda'r CCLI ac yna cysylltu â nhw'n flynyddol i adrodd ar y defnydd o'r geiriau gan nodi rhif CCLI y geiriau Cymraeg.

Yn ogystal â bod yn llwyfan dielw ar gyfer rhannu emynau a chaneuon Cymraeg, mae gobaith.cymru hefyd yn fas data cynhwysfawr o gyfieithiadau cydnabyddedig ac yn wasanaeth rhad ac am ddim i gyfieithwyr a pherchnogion hawlfreintiau'r emynau trwy weinyddu'r broses awdurdodi cyfieithiadau a'u hyrwyddo'n ganolog. Anfonir cyfieithiadau Cymraeg ataf fi ar gyfer eu gwirio a'u golygu, ac wedi iddynt gael eu hawdurdodi byddant ar gael trwy'r wefan ynghyd â'r manylion hawlfraint. Y nod yw hyrwyddo'r cyfieithiadau a awdurdodwyd gan berchnogion yr hawlfraint ar ran yr awduron a lleihau nifer y cyfieithiadau gwahanol sydd heb eu hawdurdodi ac yn cael eu rhannu heb reolaeth.

Mae'r broses o dderbyn emynau gwreiddiol Cymraeg a chyfieithiadau'n digwydd yn gyson, ac rydym bob amser yn hapus i dderbyn geiriau emynau, carolau a chaneuon i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys ar y wefan. Mae ein diolch yn fawr i ddeiliaid yr hawlfreintiau am eu caniatâd caredig i osod yr emynau yn rhad ac am ddim ar y wefan.

Ychwanegiad diweddar i'r wefan yw'r Cyfeiriadur Emynau Cymraeg–Saesneg, sef bas data o emynau sydd ar gael yn y ddwy iaith, yn gyfieithiadau o'r naill iaith i'r llall (www.gobaith.cymru/emynau-cymraeg-saesneg). Mae'r cyfeiriadur ar ffurf dwy restr, y naill yn rhestru'r emynau yn nhrefn yr wyddor Gymraeg a'r llall yn nhrefn yr wyddor Saesneg. Daeth y cyfeiriadur i fod am sawl rheswm. Yn gyntaf, wrth oruchwylio'r gwaith o gyfieithu cwrs hyfforddi Pregethwyr Lleol yn yr Eglwys Fethodistaidd, roedd angen i mi ddarparu awgrymiadau am emynau a chaneuon addoli Cymraeg oedd yn cyfateb i'r rhai Saesneg. Yr un pryd, wrth gyfieithu deunydd cynllun adnoddau addoli a dysgu wythnosol *ROOTS*, cefais gais gan weinidog sy'n ddysgwr am restr o emynau Cymraeg oedd yn cyfateb i'r rhai Saesneg a awgrymid ar gyfer pob wythnos. Yn ogystal, wrth dderbyn cyfieithiadau o emynau i'w hawdurdodi ar gyfer gwefan gobaith.cymru, roedd angen gwirio nad oedd cyfieithiad awdurdodedig eisoes yn bodoli. Gan ddefnyddio rhestr oedd eisoes yn bodoli, ychwanegwyd rhagor o emynau trwy wirio *Caneuon Ffydd*, *Canu Clod* a nifer o lyfrau emynau enwadol eraill. Bellach, mae dros 780 o emynau wedi eu rhestru. Mae'r rhestr yn tyfu o hyd wrth i ragor o emynau gael eu cyfieithu neu wrth i rai na wyddwn amdanynt ddod i'r fei. Os yw'r darllenwyr yn gwybod am emynau sydd ar gael yn y Gymraeg a Saesneg nad ydynt yn y cyfeiriadur, anfonwch air ataf drwy e-bostio delythwyndavies@hotmail.co.uk, os gwelwch yn dda.

Delyth Wyn Davies



TUDALEN Y PLANT

Y Bedd Gwag

Yn hwyr ar y nos Sadwrn, pan oedd y Saboth drosodd, aeth Mair Magdalen, Salome a Mair mam Iago i brynu perlysiau ar gyfer eneinio corff Iesu. Yna'n gynnar iawn ar y bore Sul, pan oedd hi yn gwawrio, dyma nhw'n mynd at y bedd. Roedden nhw wedi bod yn trafod ar eu ffordd yno pwy oedd yn mynd i rolio'r garreg oddi ar geg y bedd iddyn nhw. Ond pan gyrhaeddon nhw'r bedd dyma nhw'n gweld fod y garreg, oedd yn un drom iawn, eisoes wedi'i rholio i ffwrdd.

Wrth gamu i mewn i'r bedd, dyma nhw'n dychryn, achos roedd dyn ifanc yn gwisgo mantell wen yn eistedd yno ar yr ochr dde. "Peidiwch dychryn," meddai wrthyn nhw. "Dych chi'n edrych am Iesu o Nasareth gafodd ei groeshoelio. Mae wedi dod yn ôl yn fyw! Dydy e ddim yma. Edrychwch, dyma lle cafodd ei gorff ei roi i orwedd. Ewch, a dweud wrth ei ddisgyblion a Pedr, 'Mae Iesu'n mynd i Galilea o'ch blaen chi. Cewch ei weld yno, yn union fel roedd wedi dweud.'"
(Marc 16:1-7 beibl.net)

Beth am orffen llun yr Wy Pasg?



Cyhoeddwyd y dudalen hon yn wreiddiol yn rhifyn Ebrill o'r *Gwyliedydd* (cylchgrawn yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru), a diolchwn yn garedig i fwrdd golygyddol y papur am ganiatâd i'w hatgynhyrchu yn *Cenn@d*.

O'r byd a'r betws

Tystio – i haelioni a chreulondeb

Prin fod modd i unrhyw un sy'n tystio i ryfeloedd mewn gwledydd eraill amgyffred beth yw realaeth rhyfel, heb fod yn bresennol, nid fel gohebydd, ond fel un sy'n byw yn y wlad – pobl sydd wedi profi archoll colli teulu a gweld chwalfa ei ardal ei hun.

Bydd gwrando ar ohebwyr fel Jeremy Bowen yn peri ymdeimlad o barch sylweddol atynt, a hynny at y criw cyfan, yn yrwyr ceir, dynion camera a sain, heb anghofio'r wynebau a welwn o flaen y camera. Mae gofyn iddynt fod mor wrthrychol ag sy'n bosibl gan osgol troi'r ffimio yn arf cyhoeddusrwydd unochrog. Bu farw 14 o weithwyr y cyfryngau hyd yma yn Wcráin, a newyddiadurwyr – tri o Wcráin a dau ohebydd tramor – yn eu plith.

Clywsom sawl adroddiad am drigolion Wcráin yn cael anawsterau i ddod i mewn i wledydd Prydain gan fod y broses yn heriol, hyd yn oed i'r sawl sydd â theulu neu gyfeillion yn eu disgwyl rywle ym Mhrydain ac yn medru darparu ar eu cyfer. Mae'n anhygoel meddwl fod cymaint o gartrefi'n barod i dderbyn dieithriaid o Wcráin i'w cartrefi – nid bod hynny'n gam hawdd i lawer ohonom sydd mewn tai nad ydynt yn addas i'w rhannu.

Er mor erchyll yw sefyllfa'r Wcraniaid, rydym yn gorfod cyfaddef ein hanwybodaeth am ryfeloedd cartref ar draws y byd. Mae 22 o ryfeloedd cartref ar gyfandir yr Affrig ar hyn o bryd, heb anghofio beth sy'n digwydd yng ngwledydd y Dwyrain Canol a'r Dwyrain Pell. Mae sefyllfa pobl Myanmar yn un enghraifft yn unig o'r sefyllfa alarus honno.

Efallai fod doethinebu o flaen cyfrifiadur neu mewn golygyddol wythnosolyn yn rhy hawdd, heb brofi'r ing a'r ofn sydd ym mhrofiadau pobl fel Wyre Davies.

Eto, mae môr o gariad a chefnogaeth ledled byd i'r Wcraniaid, a diolch am hynny. Ar hyd cyfnod y rhyfel, gwelwyd y gefnogaeth ar draws gwledydd Ewrop. Un o ryfeddodau rhyfel Wcráin yw gweld yr ewyllys ddyngarol yn llifo o blaid y diniwed.

Bu'r ymateb ar draws Cymru yn arbennig, ac roedd yn braf canu emynau o flaen y Tabernacl, Caerdydd, a gweld y cerddwyr ar yr Ais yn aros a chefnogi'n hael o blaid Wcráin. Cyfrannwyd punnoedd lawer, er mwyn cefnogi gwaith y mudiadau dyngarol.

A chafwyd hefyd gyngerdd Cymru ac Wcráin yn Aberystwyth gyda chantorion safonol yn rhannu eu doniau. Yn eu plith roedd côr ysgol gynradd o Aberystwyth (sydd â 22 o ieithoedd yn cael eu cynrychioli yn yr ysgol) yn cydganu geiriau gobaith. Bu cyngherddau arbennig mewn rhannau eraill o Gymru yn gwenud yr un peth, a diolch amdanynt. Casglwyd nwyddau o sawl canolfan ar draws y wlad yn estyn 'dwylo dros y môr', a da hynny.

Eto, mae'r lluniau o Wcráin yn dangos golygfeydd dinistr, a mynwentydd yn llenwi gan gyrff pobl nad oeddent yn ymwneud â militariaeth. Mae ysbytai wedi eu dinistrio ac mae'r genedl ar chwâl ar draws Ewrop.

Gwae ni rhag anghofio teuluoedd y sawl a fu'n gwisgo lifrai Rwsia ac o dan awdurdod Mr Putin, sy'n galaru am eu hanwyliaid hwythau. Buont yn gweddïo am ddiwedd i'r gyflafan, a hawdd uniaethu â hynny.

Wrth deithio tua'r Pasg, deisyfwn ninnau am obaith mewn byd o adfyd, a heddwch mewn byd o ryfel.

Denzil John

Gwahoddiad i Fforwm Ffydd (Undeb Athrofa'r Bala)

Mewn cyfnod mor ddirdynnol yn hanes y byd mae'n hanfodol dal ein gafael ar obaith. Dyna bwyslais Arwel Rocet Jones mewn erthygl gwbl arbennig yn rhifyn olaf Mawrth o *Cenn@d*, lle mae'n trafod delwedd drawiadol Iwan Bala o eiriau Pablo Neurada ac yn pwysleisio mai ein cyfrifoldeb ni bob un yw dal i obeithio – yng ngeiriau Neurada, 'dal i bysgota am olau mewn pwll o dywyllwch'. A 'Gobaith y Cristion' fydd thema'r Fforwm Ffydd (Undeb Athrofa'r Bala) a gynhelir eleni yn Seilo, Eglwys Unedig Llandudno, ddydd Mawrth, 17 Mai, i ddechrau am 10 y bore.

Rydym am edrych yn benodol ar dri maes yn y gynhadledd. Bydd Dr Ruth Richards, Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith, yn trafod 'Gobaith ym maes Iaith a Diwylliant' a daw Dr Elin Ellis Jones, Ymgynghorydd Seiciatryddol yn Ysbyty Aneurin Bevan atom i drafod 'Gobaith ac Iechyd Meddwl'. Fe gloir y gynhadledd gyda'r Parch Beti Wyn James, Gweinidog Gofalaeth y Priordy, Caerfyrddin, yn trafod 'Gobaith a'r Eglwys'.

Gan y bu raid gohirio cyfarfod ddwy flynedd yn olynol oherwydd y pandemig, edrychwn ymlaen yn eiddgar i'ch croesawu i'r gynhadledd eleni. Mae'r cyfarfod yn agored i bawb sydd â diddordeb, ac fe fydd yn hyfryd croesawu hen gyfeillon a chyfeillion newydd atom i wrando a thrafod. Dewch yn llu!

Eric Jones (Cadeirydd)
Megan Williams (Ysgrifennydd)

S4C

Oedfa Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Bore Sul y Pasg, 17 Ebrill, am 12.00yp
Ymunwch â ni wrth i ni nodi'r Pasg mewn gwasanaeth dan ofal y Parchedig Gwyn Elfyn.

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul y Pasg, 17 Ebrill am 7:00yh (ailddarlledir y Sul canlynol am 11:30yb).
Daw'r rhaglen heddiw o Fangor, ac i ddathlu'r Pasg cawn gydganu rhai o'n hoff emynau o'r Gadeirlan dan arweiniad Cefin Roberts, mwynhau perfformiadau cerddorol gan Aled Jones, Côr y Gadeirlan, Gwen Elin ac eraill. Bydd Nia yn cael cwmni Archesgob newydd Cymru, y Parchedicaf Andy John.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul y Pasg, 17 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp
Cyfres ar amrywiol themâu gydag R. Alun Evans. Emynau'r Pasg fydd dan sylw ganddo heddiw.

Oedfaon y Pasg ar Radio Cymru
Gwener y Groglith, 15 Ebrill, am 11.30yb
Oedfa sgwrs gyda'r bardd Gwyneth Lewis, Caerdydd.

Sul y Pasg, 17 Ebrill am 12.00yp
Gwasanaeth dan ofal Andy John, Archesgob yr Eglwys yng Nghymru.

Gwladgarwch a chenedlaetholdeb – cip ar gynnwys rhifyn Ebrill o'r *Traethodydd*

Thema amlwg yn y rhifyn cyfredol o'r *Traethodydd*, cylchgrawn hynaf Cymru, yw gwladgarwch a chenedlaetholdeb. Anrhydedd yw cael cyhoeddi darlith gan y diweddar Meredydd Evans ar un o ffigyrau cyhoeddus pwysig yr ugeinfed ganrif, sef yr Athro J. R. Jones. Ef yn anad neb a roes sylfaen ddeallusol i ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith ym merw'r 1960au, ac yn yr ysgrif hon mae un o ffigyrau blaenaf mudiad yr iaith ar ddiwedd y ganrif, sef ei gyd-athronydd, y Dr Meredydd Evans, yn tafoli syniadaeth JR ynghylch ystyr cenedlaetholdeb. Trwy law'r Athro Richard Wyn Jones, Cyfarwyddwr Canolfan Llywodraethiant Cymru, y cafwyd y ddarlith, a draddodwyd yn wreiddiol i fyfyrwyr gwleidyddiaeth Prifysgol Aberystwyth yng nghanol y 1990au, a Richard hefyd sy'n ei chyd-destunoli ac yn esbonio'i gwerth. Gwych o beth yw clywed llais Merêd unwaith eto, yn trafod â'i ddisgleirdeb arferol bwnc a oedd yn agos iawn at ei galon.

Athronydd arall o Gymro yw'r Athro John Heywood Thomas ac yn ei ysgrif yntau – a gyrhaeddodd yn gwbl annibynnol ar ysgrif Merêd – mae'n trafod ystyr gwladgarwch, a hynny ar sail ei hir brofiad o fod yn alltud o'i wlad. Gan dynnu oddi ar waith Raymond Williams a meddylwyr eraill, mae'n myfyrio ar arwyddocâd hanes, gwreiddiau, a'r cysyniad o iaith y galon. Gwych o beth yw cael cyhoeddi'r astudiaeth ddiddorol hon. Yr un awdur sy'n adolygu cyfrol fer Cynog Dafis, *Pantycelyn a'n Picil Ni Heddiw.* Er yn werthfawrogol o ymgais Cynog i gymhwyso gweledigaeth y Pêr Ganiedydd at y Gymru gyfoes, nid yw'n argyhoeddedig fod y syniadaeth ddiwinyddol sy'n sail i'r gwaith yn gwneud cyfiawnder â sylwedd y ffydd.

Bu gwladgarwch yn un o themâu cyson tystiolaeth y Cylch Catholig, sef y gymdeithas o Gymry a fynnai gymeradwyo'r Eglwys Gatholig Rufeinig i'w cyd-Gymry a'r un pryd yn gwarchod hawliau'r Gymraeg ymhlith eu cyd-grefyddwyr. Wrth adolygu cyfrol y diweddar Ioan Roberts, *Gwinllan a Roddwyd*: *Hanes y Cylch Catholig*, mae'r Golygydd yn sôn am arwyddocâd y gwaith ac am bwysigrwydd y Cylch ei hun.



Yn ogystal â'r uchod, ceir stori fer gan awdur newydd, John Harding. Braint bob amser yw cyhoeddi rhyddiaith greadigol a phleser arbennig yw dod o hyd i dalent newydd. Ynghyd â hyn ceir ysgrif gan Dewi Alter, yr ysgolhaig ifanc o Brifysgol Caerdydd, ar y Ficer Prichard a Phla Llundain, 1625. Mae'n rhyfedd sut mae argyfwng y Covid wedi'n hatgoffa o argyfyngau tebyg mewn oesoedd a fu.

Dyma'ch cymell unwaith eto i ddarllen y rhifyn cyfoethog hwn o'r *Traethodydd*, ac yn well fyth, i danysgrifio i'r hynaf a'r mwyaf sylweddol o gylchgronau'r diwylliant Cymraeg. Wedi'i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch ag Alice Williams (alice@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

Teithiau Elfyn Thomas Tours

01407 731080

Drama'r Dioddefaint • Oberammergau 2022

Ymunwch ag un o'n teithiau arbennig o ogledd Cymru

Cynwys: Trefniant swyddogol
2 noson yn Oberammergau
Seddi Categori 1 i weld y perfformiad
9 noson: swper, gwely a brecwast

16–25 Awst: 10 Diwrnod – £1749
Soll a'r Tyrol Rhaeadr Krimml
Llyn Achensee

15–24 Medi: 10 Diwrnod – £1749
Innsbruck Alpau Awstria
Llyn Constance a Lindau Feldkirch

Peidiwch â cholli cyfle, dyddiad nesa 2030
Ychydig o seddi ar ôl ar y ddau ddyddiad
Codwch y ffôn am fwy o fanylion, neu ewch i'n gwefan:

www.elfynthomas.com

Gofalaeth Bethel, Llanddewi Efelffre, Tabernacl, Hendy-gwyn ar Daf a Triniti, Llanboidy

Mae'r eglwysi Annibynnol hyn yn awyddus i barhau gyda gweinidogaeth lawn amser. Gyda'r dyhead hwn, rydym yn gwahodd unrhyw eglwys neu grŵp o eglwysi Annibynnol, Bedyddiedig neu Bresbyteraidd sydd â diddordeb i ymuno â'r ofalaeth.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â
Meryl James
Ysgrifennydd yr Ofalaeth
Ffôn: 01994 240350
E-bost: meryljames534@btinternet.com
Erbyn diwedd mis Mehefin.

Y Llywydd ar Daith

Fel y gwyddoch, bob pum mlynedd, mae EBC yn trefnu apêl mewn partneriaeth â Chymorth Cristnogol. Eleni mae apêl 'Hadau Gobaith' yn codi arian ar gyfer prosiectau ynglŷn â Newid Hinsawdd yn Kenya a Honduras.

Fel rhan o'r apêl hon, mae Evan Morgan, fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, yn bwriadu codi arian drwy gerdded 70km. Y bwriad yw ymweld â phob un o'n 14 Henaduriaeth a cherdded 5km ym mhob un ohonynt, gan wneud cyfanswm o 70km. Fe ddechreuodd Evan ar ei daith ar 12 Mawrth yn eglwys Sandfields yn Henaduriaeth Saesneg y De-orllewin, ac mae wedi ymweld â chwe Henaduriaeth hyd yma. Bydd y daith yn ailgychwyn ar 30 Ebrill yn Henaduriaeth Saesneg Canol Cymru a'r Gororau.

Dyma rai lluniau o'r daith hyd yma wrth i Evan gynnal gwasanaethau, codi arian ac ymwybyddiaeth am yr apêl a chwrdd ag aelodau'r eglwysi.

Dechrau'r daith ar 12 Mawrth yn eglwys Sandfields, South West Presbytery

Y criw ymunodd yn y daith a'r gwasanaeth yn Henaduriaeth Myrddin ar 13 Mawrth

Y cerddwyr ar gychwyn yn dilyn yr oedfa yn y Morfa, Aberystwyth, ar 20 Mawrth

Rhai o'r cerddwyr yn y Gogledd-ddwyrain a'u cŵn, Sul, 3 Ebrill

Cerddwyr Dyffryn Clwyd, 1 Ebrill

Evan yn cymryd rhan yng ngwasanaeth bendithio'r aradr yn Morton ar ôl cerdded yn Henaduriaeth y Northern, Sadwrn, 2 Ebrill

Cerddwyr Myrddin, 13 Mawrth

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Hwn ydyw'r dydd

Dydw i ddim yn gwybod faint o oriau a dreuliais mewn siopau llyfrau ail-law yn byseddu hen gyfrolau ac yn ceisio penderfynu a oedd lle ar y silffoedd ar gyfer rhagor o gyfrolau o'r oes a fu! Un diwrnod, wrth archwilio'r silffoedd, agorais un gyfrol ac wrth ei hagor syrthiodd darn bychan o bapur ohoni. Dyma ddisgyn o ben yr ysgol a'i godi. Ac arno, mewn llawysgrif daclus, darllenais y geiriau:

Er gwaetha'r maen a'r milwyr [*sic*]
Cyfododd Iesu'n fyw;
Daeth yn ei law alluog
Â phardwn dynol-ryw;
Gwnaeth etifeddion uffern
Yn etifeddion nef;
Fy enaid byth na thawed
Â chanu iddo ef.

Dysgais yn ddiweddarach mai Morgan Rhys oedd yr awdur gwreiddiol. Ond anghofiaf fi byth mo'r wefr a afaelodd ynof o'i ddarllen y pnawn tywyll hwnnw.

A rhyfeddod y fuddugoliaeth ar Galfaria a choncwest y trydydd dydd fydd yn rhoi gwefr ac yn llenwi ein moliant ninnau eto!

A heddiw, bron na allem glywed mawl yr Eglwys ym mhob oes yn atseinio drwy'r cenedlaethau. Hwn, bore'r Atgyfodiad, yw'r dydd a wnaeth ein Duw, ac oherwydd hynny llawenhawn a gorfoleddwn ynddo.

Darllen Salm 118:1–2; 14–24

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, methodd dy ddisgyblion â'th adnabod ar fore'r trydydd dydd pan sefaist yn fuddugoliaethus, yn bencampwr sanctaidd bywyd, yn orchfygwr angau a'r bedd. Arglwydd, saf eto yn ein plith. Bydd drugarog wrthym a datguddia dy hun i ni drachefn drwy dy Ysbryd Glân. Llanw'n calon â'th gariad a'n genau â'th glod. Amen.

Emyn 562 'Crist a orchfygodd'

Darllen Luc 24:1–12

Camgymeriad ar ein rhan yw tybio bod pobl ddwy fil o flynyddoedd yn ôl yn fwy tebyg o gael eu twyllo i gredu mewn rhyw 'atgyfodiad'. Pan edrychwn ar adroddiadau'r Efengylau o atgyfodiad Iesu, fe welwn ar unwaith nad oedd ei ddisgyblion wedi disgwyl am un eiliad y byddai'r bedd a seliwyd yn wag. Mynd at y bedd gyda'u peraroglau i gyflawni gorchwyl trist wnaeth y gwragedd ffyddlon. Pan welsant y bedd yn wag a methu dod o hyd i gorff Iesu, 'daeth ofn arnynt' wrth i 'benbleth' afael yn eu calonnau.

Bu'n rhaid wrth fodau goruwchnaturiol i egluro iddynt fod Iesu wedi atgyfodi. Wedi i Fair Magdalen a Joanna a Mair mam Iago, ddychwelyd ac adrodd i'r apostolion eu hanes rhyfeddol, ni ddywedodd unrhyw un o'r apostolion, 'Wrth gwrs! Yn 'doedd o wedi dweud y byddai'n codi o'r bedd.'

Na, meddai Luc, 'i'w tyb hwy, lol oedd yr hanesion hyn, a gwrthodasant gredu'r gwragedd'.

Ac er mor dramgwyddus yw'r syniad i'n hoes faterol, 'wyddonol' ni, nid sôn am Iesu sy'n 'fyw' drwy ei ddylanwad, ei ddysgeidiaeth, neu ei esiampl a wnaeth yr Eglwys. Sail ein datganiad gobeithiol, rhyfeddol ni, hyd yn oed heddiw, yw hyn: nid yw ef yma ... Nid oedd corff Iesu yno pan aeth y gwragedd, at y bedd ar y trydydd dydd. Roedd wedi atgyfodi a choncro marwolaeth ei hun.

Peth ofnadwy ydy chwilio am rywun yn y lle anghywir. Wedi'r cyfan, os ydych yn chwilio yn y lle anghywir, ddowch chi ddim o hyd iddynt!

Trafferth y gwragedd a'r apostolion cyntaf oedd eu bod yn chwilio am Iesu yn y lle anghywir. Tybed nad ydym ni'n bodloni ar ryw 'chwilio' arwynebol am Iesu, heb ddisgwyl dod o hyd iddo mewn gwirionedd. Ddown ni ddim o hyd i'r Iesu byw mewn trefniadaeth grefyddol, na defodau difywyd nac mewn unrhyw le arall y tybiwn ei fod wedi cael ei roi i orwedd. Yr unig Iesu y down ni o hyd iddo mewn gwirionedd yw'r Iesu byw, atgyfodedig sy'n dod atom i'n cyfarch.

Os ydym yn ddoeth, ni fyddwn ninnau'n oedi rhag rhedeg yn ôl troed Pedr a phlygu a chanfod buddugoliaeth yr hwn a lyncodd angau mewn buddugoliaeth.

Wedi'r cyfan, onid oedd wedi dweud wrth ei ddisgyblion sawl tro, 'bod yn rhaid i Fab y Dyn gael ei draddodi i ddwylo pechaduriaid, a'i groeshoelio, a'r trydydd dydd atgyfodi'?

Ar fore'r trydydd dydd digwyddodd rhywbeth mwy na thoriad gwawr bore newydd ar galendr amser. I Luc a'r eglwys fore, roedd yn 'ddydd cyntaf o'r wythnos', yn 'doriad gwawr' newydd ar weithgarwch Duw yn y byd. 'Gorffennwyd' a glywyd yng nghri fuddugoliaethus y Meseia, ond wedi'r Saboth gwawriodd gobaith cyfnod newydd. Nid gan angau, na chan rymoedd dieflig, celwyddog a thwyllodrus y byd, y mae'r gair olaf. Mae'r bywyd buddugoliaethus newydd, a gair y bywyd newydd, gair gras, gair grym anorchfygol, ar waith, yng Nghrist.

Darllen 1 Corinthiaid 15:19–26

Er y byddai gan Iddewon gred am yr atgyfodiad cyn iddynt ymlynu drwy ffydd yn Iesu, nid oedd gan genedl-ddynion dinas anfoesol Corinth unrhyw gefndir diwylliannol a fyddai'n hybu cred mewn atgyfodiad. Pwy yn ei iawn bwyll a gredai y medrai rhywun oedd wedi marw, a'i gladdu, ddod yn ôl yn fyw? Yn wir, pan geisiodd Paul yn Athen sôn am yr Atgyfodiad, croesawyd ei neges â 'gwawd' (Actau 17:32).

Felly, roedd i'w ddisgwyl y byddai'r cynulleidfaoedd cyntaf a gefnodd ar eu hofergoeliaeth a'r cynulleidfaoedd cynharaf i gredu yn Iesu yn ymgodymu â'r gred am yr Atgyfodiad.

Nid yw'r Apostol yn ddof wrth geisio cynorthwyo'i ddarllenwyr i ddal eu gafael yn eu cred. Os nad atgyfododd Iesu, meddai, 'nyni yw'r bobl fwyaf truenus o bawb'. Ond am fod Crist, Meseia Duw, wedi'i atgyfodi, yr ydym yn bobl obeithiol. Gerbron Duw saif dau gynrychiolydd: Adda a Christ. Tynged a gafael 'Adda' arnom yw fod marwolaeth yn effeithio ar bob un byw. Trwy Iesu Grist a'i atgyfodiad, agorwyd drws gobaith i 'bawb' yng Nghrist Iesu.

Efallai mai un fefusen aeddfed sydd wedi cochi yn yr ardd, ond 'blaenffrwyth' melys ydyw o'r cnwd sydd eto i aeddfedu'n llawn. Iesu a'i atgyfodiad yw'r ffrwyth melys cyntaf, blaenffrwyth y cynhaeaf y byddwn 'yng Nghrist' yn rhan ohono. Blaenffrwyth cynhaeaf gobaith a bywyd oedd ei atgyfodiad.

Roedd ei goncwest dros angau a'r bedd, yn fwy na dim ond yn llwyddiant i Iesu, oherwydd, yng nghyflawniad ei 'ddyfodiad', bydd yn goncwest i'r 'rhai sy'n eiddo Crist'. Yng nghyflawnder terfynol ei fuddugoliaeth diddymir tywysogaethau ac awdurdodau gwrthwynebus. Diddymir angau ei hun.

Gweddi

Hollalluog Dduw, diolchwn i ti am gamu i gysgodion glyn cysgod angau, yn Iesu Grist. Diolch bod yr atgyfodiad a'r bywyd wedi preswylio yn ein plith ac na all nac angau nac einioes mwyach ein gwahanu o'i ras na'i gariad na'i rym. Amen.

Emyn 'Myfi yw'r Atgyfodiad mawr'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru